

Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 2ail Tachwedd 2021

Croeso ac Ymddiheuriad - Rhoddwyd Croeso gan Y Cadeirydd a gair o weddi gan y Clerc

Presennol - Y Cadeirydd Emma Chappell ynghyd a'r Cyngorwyr, Elfed Wyn Williams, Ceri Jones, R Hefin Williams, Rhian Evans-Hill, Sasha Williams a Gareth Griffiths.

Croesawyd Y Cyngorydd Elwyn Jones

Ymddiheuriadau - Lowri Hughes, Idris Thomas, Richard LL Jones, Dawn Parry, Ynyr Parri, Phyllis Ellis, a Jane Pierce

Datgan Buddiant - Dim

Cofnodion 5ed Hydref 2021

Cafwyd y Cofnodion yn gywir:

Elfed Wyn Williams (1)

Gareth Griffiths (2)

Materion o'r Cofnodion

Fforwm Cymunedol Llechi - Diolch I Idris am gytuno i gynrychioli'r Cyngor ar y cyfarfodydd yma.

HSBC - Derbyniwyd llythyr cefnogaeth gan Siân Gwenllïan a Hywel Williams ynglŷn â gwasanaeth y banc yn nodi'r camau sydd wedi eu cymryd yn barod. Bydd Siân yn dal i barhau i gydweithio gyda'r gobaith o wella'r sefyllfa.

Ymateb Mei Mac - Diolch I Mei Mac am ymateb mor brydlon ynglŷn ag enw Allt Ddu. Mae'r mater bellach yn nwylo ymgynghorydd iaith yng Nghyngor Gwynedd.

Llythyrau Diolch - Derbyniwyd llythyrau diolch am roddion ariannol i fudiadau gan:

Llais Ogwan, Clwb Bowlio Bethel, Eisteddfod Bethel, Clwb Pêl Droed Bethel, Clwb Snwcer Deiniolen, Seindorf Arian Deiniolen, Cynllun Efe, Neuadd Bentref Rhiwlas, Pwyllgor Neuadd Penisa'r-waun, Ysgol Gwaun Gynfi ac Ysgol Bethel.

Llwybrau - Rydym dal yn disgwyl am ymateb gan adran llwybrau ar amcan bris i wella ychydig o lwybrau'r ardal.

Diffyg Ymateb Cyngor Gwynedd - Mae sawl Cyngor bellach wedi dangos pryder ynglŷn â diffyg ymateb gan adrannau'r Cyngor Sir. Mae Cyngor Llandygai wedi mynd i'r afael ac yn gobeithio trefnu cyfarfod o'r holl Gynghorau Cymuned gyda'r Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd er mwyn lleisio ein problemau.

Gohebiaeth a Materion Eraill

Neuadd Bentref Rhiwlas

Derbyniwyd llythyr gan Cynrig Hughes ar ran Pwyllgor Neuadd Rhiwlas, yn dilyn ymchwil ganddynt i gofrestru'r Tir er mwyn hwyluso gwaith ceisiadau am gymorth ariannol. Yn dilyn hyn, darganfuwyd fod perthynas y Neuadd a Chyngor Cymuned Llanddeiniolen. Yn dilyn hyn, llwyddodd Cynrig I fynd i'r archifdy yng Nghaernarfon gyda'r gobaith o ddatgelu rhywbeth yn gofnodion Y Cyngor yn niwedd y 70au.

Yn dilyn hyn, yn wir cafwyd cadarnhad yng nghofnodion o 1979 mai Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn wir yw Ymddiriedolwyr yr elusen, ac mai'r Cyngor Cymuned yw perchennog cyfreithiol Y Neuadd, er nid yw'r tir wedi ei gofrestru.

Yn dilyn trafodaeth lle nodwyd pa mor bwysig mae hyn yn dangos fod cofnodion trylwyr yn cael eu gwneud ym mhob cyfarfod, penderfynwyd yn unfrydol mai penderfyniad doeth fyddai cadw'r sefyllfa sydd wedi ei oleuo yma run fath, sef perchnogaeth y Neuadd yn nwylo'r Cyngor Cymuned. Fydd hyn yn sicrhau dyfodol o'r Neuadd a sicrwydd i'r amser a ddêl. Penderfynwyd hefyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cofrestru'r Tir yn enw'r Cyngor Cymuned.

Yn dilyn hyn, efallai fod gwerth i'r Cyngor edrych i mewn i weld os oes rhywbeth arall, yn anymwybodol i ni sydd yn ein gofal o bob pentref, ac os oes, efallai cysylltu gyda Unllais Cymru am drafodaeth bellach.

Cynllunio

Derbyniwyd y ceisiadau canlynol:

C21/0882/18/AC - Plot 2,3,4 a 5 Maes Y Ffynnon, Bethel.

Diwygio amod rhif 1 o ganiatâd cynllunio C18/0545/18/LL er mwyn newid dyluniad cynllun llawr ac edrychiad allanol y 4 Tŷ. Nid oedd Dim Gwrthwynebiad

C21/0969/18/LL, Carreg Y Garth Isaf Allt Rhiwlas,

Cadw Carafán at ddibenion storio. Angen mwy o wybodaeth, ddim yn ymwybodol fod carafán bresennol yno.

C21/1028/18/LL Cartref Nyrsio, Penisa'r-waun. Newid defnydd cartref gofal i hostel gyda 30 ystafell wely ynghyd a llety byw warden cysylltiedig. Gwrthwynebu ar sail cymaint â 30 o ystafelloedd cysgu, ynghyd a thraffig ychwanegol ar ddarn o lon sydd yn droellog a chul. Posib o sŵn hefyd fydd yn cael effaith ar breswylwyr cyfagos.

Lloches Bws Brynrefail

Derbyniwyd cwyn fod y gysgodfa'n bws ger y bont yn flêr, ac angen paneli Newydd yn hytrach na'r paneli oedd arno ar hyn o bryd, lle does dim posib gweld allan o'r gysgodfa'n.

Esboniwyd na'r rheswm rhoddwyd y paneli yma, oedd am fod y gysgodfa'n yn cael ei fandaleiddio cyn gynted a bod paneli Newydd yn cael ei rhoi yno. Bu hyn yn mynd ymlaen am flynyddoedd., Ar ôl gosod y paneli yma, cafwyd graffiti anwedus ei ddarlunio yna, a bu i

ni fethu ei llinau a gorfod ei beintio. Penderfynwyd gyrru am amcan bris, gan obeithio fod y gysgodfa'n bws am gael llonydd rhag ei ddifrodi.

Hysbysfyrddau

Derbyniwyd llythyr o Adra yn rhoi caniatâd i'r Cyngor Cymuned osod hysbysfwrdd wrth ymyl y diffryblydd a safle bws ar y man gwyrdd yn Rhiwlas, cyn belled ac ein bod yn gwneud yn rhwydd gallu torri gwair.

Cafwyd amcan bris a llun yn dilyn holi am bris ychwanegol. Penderfynwyd derbyn hyn, a rhoi caniatâd i'r clerc archebu ynghyd a gwneud trefniadau gyda'r swyddog o'r Cyngor Sir fydd yn eu gosod.

O Gwmpas y Bwrdd

Bethel - Sasha wedi cael cyfarfod da gyd Angharad Owen ar ran Bethel ynghyd a chynllun GwyrddNi.

Rhiwlas - Yn dilyn trafodaeth cynt, atgoffodd Hefin ni o'r cynllun mapiau a wnaethom gyda Gareth a fu yn llwyddiannus dros ben, ac ein bod wedi son gan ei fod yn ddau ganmlwyddiant Dafydd Ddu Eryri, a'i gysylltiadau a'r ardal a'i farwolaeth ger Ynys Iago, ein bod wedi trafod gwneud cynllun tebyg ar enwogion lleol. Y clerc i gysylltu â Gareth I drefnu.

Deiniolen - Yn dilyn llifogydd yn yr ardal unwaith eto, mae dŵr sydd wedi bod yn rhedeg i lawr lon Pen Bont, wedi cario pentwr o gerrig man oddi ar wyneb y ffordd i lawr i'r lon fawr. Mae hyn yn andros o beryg. Y clerc i gysylltu yn gofyn i gael llunau y ffordd yn y byr dymor, gan obeithio cael datrys y broblem yn yr hir dymor.